Eleni eto treuliwyd diwrnod diddorol yn yr ysgol ar Ddydd Gwyl ein Nawddsant. Braf oedd gweld y plant i gyd yn gwisgo'r genhinen neu'r Genhinen Pedr a'r merched yn eu gwisgoedd Cymreig deniadol. Yn ogystal a'r cystadlu arferol gan blant y gwahanol ddosbarthiadau cafodd y disgyblion a'r athrawon de Cymreig ardderchog wedi ei baratoi gan y mamau a chafwyd blas arbennig o dda ar y bara brith, pice ar y man a'r bwydydd eraill oedd o'n blaenau. Y mae diolch yn ddyledus i bawb am baratoi mor hèlaeth ar ein cyfer.

Hyfryd oedd cael croesawu'r Dr D. M. Lewis i'r ysgol un prynhawn ac ar ran Adran Urdd yr Ysgol cyflwynodd Sian Wyn Davies siec sylweddol iawn iddo. Casglwyd yr arian pan fu'r plant a nifer o'r rhieni a'r athrawon yn canu carolau o amgylch y pentref ychydig cyn y Nadolig. Mynegodd Dr Lewis ei lawenydd o gael ymweld a ni ac o gael derbyn yr arian ar ran Ward y Plant yn Ysbyty Bronglais. Dywedodd hefyd bod y gadair a gyflwynwyd gan blant ysgol Penrhyncoch amser yn ol wedi profi'n fendithiol i nifer o blant yn ystod eu arhosiad yn yr ysbyty ac y byddai'n defnyddio'r arian a dderbyniodd yn awr ar gyfer prynu offer arbennig ar gyfer plant.

Yn ystod y mis aeth nifer o'r plant i'r gwersyll yn Llangrannog a threuliwyd amser diddorol ganddynt yno. Yn ol yr hyn a glywn ganddynt aeth yr amser yn llawer rhy gyflym. Buont yn ffodus o gael tywydd braf yn ogystal.

Rhoddwn groeso i ddau ddisgybl newydd a ddaeth atom yn ystod y mis. Y mae Daniel Hughes Maes-y-felin wrth ei fodd gennym yma ac mae David Croft a ddaeth yma o bentref Mordiford ger Henffordd yn hapus ddigon yn ein mysg.

Rhàid llongyfarch nifer o'r plant am wneud gwaith mor dda'n y Gala Nofio ym Mhlascrug, Aberystwyth. Cawsant hwyl yn iawn yno, Bu'r merched hefyd yn cymryd rhan yn y cystadleuthau pel-rwyd ar gampws y coleg ac er na fu iddynt gyrraedd y brig cawsant amser wrth eu bodd yno.

Braf oedd cael croesawu tim pel-droed o Bontrhydfendigaid yma un bore Sadwrn. Cawsom gem arbennig o dda ar y maes o'r tu ol i'r ysgol. Yr oedd aelodau'r Bont a'r Penrhyn yn llawn egni a brwdfrydedd. Cyfartal oedd y sgor ar y terfyn. Diolchwn i Mr Arthur Thomas am ei wasanaeth fel refferi. Y mae'n diolch yn ddyledus hefyd i Mr Richard Jenkins am ei holl lafur yn ystod y misoedd. Diolch yn fawr Mr Jenkins.